

Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru

Rownd 3

Ynglŷn â'r gronfa hon:

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y sectorau creadigol a diwylliannol yng Nghymru, a'u heffaith ar yr economi ehangach. Maent hefyd yn deall y pwysau ariannol rydych wedi bod yn eu hwynebu, yn enwedig o ganlyniad i'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd 2 a gafodd eu rhoi ar waith yng Nghymru yn ddiweddar i fynd i'r afael â bygythiad amrywiolyn Omicron ym mis Rhagfyr 2021.

Mae'r sector yn cynnwys theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, atyniadau treftadaeth, sefydliadau treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau annibynnol, llyfrgelloedd cymunedol ac annibynnol, orielau, sinemâu annibynnol, digwyddiadau, asiantaethau rheoli artistiaid, lleoliadau comedi a stiwdios ymarfer a recordio.

Bydd y cyllid yn cwmpasu'r cyfnod o **ddechrau Rhagfyr 2021** tan ddiwedd mis Chwefror **2022**.

Mae tair lefel o gyllid ar gael fel a ganlyn:

- Hyd at £5k
- Hyd at £75k
- Hyd at £250k

Mae'r terfynau hyn yn 50% o'r lefelau cyllid a oedd ar gael yn flaenorol (hyd at £10k, hyd at £150k a hyd at £500k) yn ystod Cam 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol.

Rhaid ichi fodloni'r meini prawf cymhwysedd canlynol er mwyn gwneud cais am y gronfa benodol hon:

- Wedi lleoli, yn gweithredu neu'n cyflogi staff yng Nghymru neu ag asedau treftadaeth yng Nghymru
- Yn gallu cyflwyno datganiadau ariannol llawn wedi'u hardystio neu eu harchwilio'n annibynnol, ar gyfer un flwyddyn o leiaf, ond nid oes angen bod wedi cofrestru ar gyfer TAW os yw cyfanswm eich trosiant yn is na'r trothwy ar gyfer cofrestru.
- Wedi profi effaith sylweddol, sef trosiant rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022 o leiaf 50% yn is na'r un cyfnod yn 2019/20.

Bydd angen cyflwyno ceisiadau erbyn 5pm ddydd Gwener 11 Chwefror.

Gwybodaeth bwysig cyn dechrau ar y cais:

- Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei defnyddio i asesu ac i roi sgôr i'ch cais. Darllenwch [Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru Cam 2 – Dogfen Ganllaw](#) ar gyfer eich sector yn ofalus cyn gwneud eich cais. Dylai busnesau yn y gadwyn gyflenwi hefyd ddarllen y nodiadau canllaw ar gyfer y maes sector rydych yn ei gefnogi i sicrhau bod y busnesau neu'r sefydliadau rydych yn gweithio gyda nhw hefyd yn gymwys. Ni fyddwn yn gallu ystyried ceisiadau gan gyflenwyr nad ydynt yn gysylltiedig, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, â chefnogi sectorau cymwys fel yr amlinellir yn y canllawiau.
- Dim ond **un cais** am gymorth gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol y cewch ei wneud – mae hyn yn cynnwys pob cynllun Llywodraeth Cymru (y Gronfa Cadernid Economaidd, y Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr, hyd at £5k, hyd at £75k a hyd at £250k) a'r cynllun a reolir gan Gyngor Celfyddydau Cymru: [Cronfa Adferiad Diwylliannol 3 | Cyngor Celfyddydau Cymru](#). Mae risg y bydd ceisiadau lluosog yn cael eu gwrthod.
- Derbynnir y cais am gyllid yn ôl disgrisiwn heb unrhyw broses apelio.
- Sicrhewch eich bod wedi darllen ac yn deall yr [Hysbysiad Preifatrwydd – Grantiau Cronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru | Busnes Cymru](#).

Dogfennau ategol

Yn ogystal â chwblhau a dychwelyd eich ffurflen gais, dylech hefyd anfon y dogfennau canlynol i ategu eich cais:

- Copi o'ch cyfrifon o'r flwyddyn 2019–2020. Os ydych yn cyflwyno cyfrifon am unrhyw flwyddyn arall eglurwch pam yn eich e-bost esboniadol.
- Cyfriflenni Banc. Anfonwch gyfriflenni banc atom ar gyfer Tachwedd 2021 – Ionawr 2022 ar gyfer y cyfrif y bydd yr arian yn cael ei dalu iddo. Rhaid i'r cyfriflenni banc ddangos manylion y cyfrif a'r enw cofrestredig.

Eich manylion personol

Rhaid i'r cais gael ei gwblhau gan Lofnodwr Awdurdodedig i'r busnes.

Gallai Llofnodwr Awdurdodedig gynnwys un o'r canlynol:

- Cyfarwyddwr: cyfarwyddwr cofrestredig cwmni
- Ymddiriedolwr: ymddiriedolwr cofrestredig elusen
- Partner: partner/aelod dynodedig o bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu bartner cyfreithiol o fewn y busnes
- Perchennog: perchennog busnes
- Cyflogai: â'r awdurdod priodol i weithredu ar ran y sefydliad

Rwy'n cadarnhau fy mod yn llofnodwr awdurdodedig i'r busnes

Teitl	
Enw Cyntaf	
Cyfenw	
Rhif Ffôn	
E-bost	
Eich swydd (dewisol)	

Ydych yn ystyried eich hun yn anabl?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud.

Ydych yn ystyried eich hun yn ddu, yn Asiaidd neu o leiafrif ethnig?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud.

Ynglŷn â'ch sefydliad

Enw'r sefydliad

Rhif ffôn y sefydliad

Cyfeiriad e-bost y sefydliad

Gwefan (dewisol)

Cyfeiriad y sefydliad

Rhaid i gyfeiriad eich sefydliad fod yng Nghymru er mwyn gwneud cais. Mae adran ar wahân ar gyfer cyfeiriadau cofrestredig lle y gallwch gynnwys cyfeiriad cofrestredig/prif swyddfeydd (os yw'n berthnasol).

Tŷ/ Enw'r Adeilad / Rhif

Enw'r stryd

Tref neu ddinas

Awdurdod lleol

Cod post

Cyfeiriad y swyddfa gofrestrdig(os yw'n wahanol)

Tŷ/ Enw'r Adeilad / Rhif

Enw'r stryd

Tref neu ddinas

Awdurdod lleol

Cod post

Rwy'n cadarnhau bod fy sefydliad wedi'i leoli, yn gweithredu neu'n cyflogi staff yng Nghymru

Rhif TAW

Nid wyf wedi fy nghofrestru ar gyfer TAW

Rhif cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau (os yw'n berthnasol)

Nid wyf wedi fy nghofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau

Rhif Elusen

Nid wyf yn elusen gofrestrdig

Ticiwch y sector sy'n cynrychioli eich sefydliad orau

- Creadigol
- Diwylliannol
- Digwyddiadau
- Treftadaeth

A yw eich eiddo hanesyddol wedi'i ddynodi (h.y. adeilad rhestredig neu heneb gofrestrdig) neu barc a gardd hanesyddol gofrestrdig?

- Adeilad Rhestredig
- Heneb gofrestrdig
- Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestrdig
- Safle Treftadaeth y Byd

Rhowch wybodaeth ychwanegol isod

A yw eich busnes neu sefydliad yn rhan o grŵp?

- Ydy Nac ydy

Os ydy, rhowch ragor o fanylion, gan amlinellu strwythur y grŵp

Gwybodaeth am gyflogeion a gwirfoddolwyr

Ar adeg y cais, faint o staff parhaol cyfwerth ag amser llawn mae eich sefydliad yn eu cyflogi yng Nghymru (gan gynnwys cyfarwyddwyr a gweithwyr ar ffyrlo)?

Dyma nifer y swyddi llawn amser o fewn eich sefydliad. Mae swydd amser llawn yn swydd 30 awr yr wythnos neu fwy; mae swydd ran-amser yn swydd 15 awr yr wythnos o leiaf; mae dwy swydd ran-amser yn cyfateb i un swydd cyfwerth ag amser llawn. Nid ydym yn derbyn contractau dim oriau fel swyddi parhaol cymwys.

Faint o staff cytundebol rydych yn eu cyflogi mewn blwyddyn gyfartalog?

Faint o staff tymhorol rydych yn eu cyflogi mewn blwyddyn gyfartalog?

Faint o wirfoddolwyr y mae eich sefydliad yn eu cefnogi mewn blwyddyn gyfartalog?

Faint o oriau gwirfoddol y mae eich sefydliad yn eu cefnogi mewn blwyddyn gyfartalog?

Gwybodaeth Ariannol

Trosiant neu incwm blynyddol gwirioneddol ar gyfer 2019/2020

Trosiant neu incwm blynyddol gwirioneddol ar gyfer 2020/2021

Beth rydych yn rhagweld y bydd eich trosiant neu eich incwm yn 2021/2022?

Pa ganran o gyfanswm eich trosiant neu incwm sy'n deillio o'r sector cymwys?

10% – 30%

- 30% – 60%
- 60% – 90%
- 90% neu'n uwch

Beth yw'r gostyngiad a ragwelir yn y trosiant neu incwm o fis Rhagfyr i fis Chwefror?

- 50% – 70%
- 70% neu'n uwch

A oes gennych bolisi arian wrth gefn ffurfiol neu bolisi i gadw arian at ddibenion penodol (cronfeydd wrth gefn cyfyngedig)?

- Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Os ydych, dywedwch yn gryno wrthym am y polisi

Faint o arian parod neu gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig sydd ar gael ar unwaith i gefnogi gweithrediadau eich sefydliad yn y tymor byr?

Os oes gennych ddigon o arian parod wrth gefn ar gael i dalu unrhyw ddiffyg mewn incwm, peidiwch â gwneud cais gan y caiff eich cais ei wrthod.

£

Os nad yw'n bosibl defnyddio eich arian parod wrth gefn i gefnogi gweithrediadau eich sefydliad yn y tymor byr, dywedwch wrthym pam.

Uchafswm o 1500 nod

Nodwch y ffynonellau eraill rydych wedi derbyn cymorth ariannol ganddynt ers dechrau pandemig COVID-19, gan gynnwys benthyciadau gan y Llywodraeth a benthyciadau masnachol? Nodwch y swm a dderbyniwyd.

Cyllid brys COVID:

Arall:

Yr Effaith Economaidd a Diwylliannol

Mae angen inni ddeall sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar eich busnes neu sefydliad. Agorwch a darllen y ddogfen ganllaw cyn ateb y cwestiynau isod.

Dywedwch wrthym am y busnes neu sefydliad rydych yn gweithio gydag ef neu'n ei reoli

Uchafswm o 1500 nod

Dywedwch wrthym sut y mae Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 2 wedi effeithio ar eich sefydliad rhwng mis Rhagfyr 2021 a diwedd mis Chwefror 2022.

Uchafswm o 1500 nod

Os ydych yn gwneud cais am lai na £5,000, nid oes angen ichi ateb gweddill y cwestiynau hyn, a gallwch fynd yn syth i'r adran 'Gwybodaeth am y Gronfa'.

Dywedwch wrthym beth fyddai'n digwydd i'ch busnes neu sefydliad pe na baech yn gallu gweithredu'n hyfyw mwyach.

Gallai hyn gynnwys:

- pwy fyddai'n gofalu am eich sefydliad/asedau diwylliannol
- a fyddai sgil neu wasanaeth diwylliannol yn cael ei golli
- os ydych yn darparu dyletswydd statudol, dywedwch wrthym beth fyddai'n digwydd

Uchafswm o 1500 nod

Pa rôl mae eich busnes neu sefydliad yn ei chwarae yn eich cymuned neu ardal leol?

Dywedwch wrthym am eich gwaith, a sut rydych yn cyfrannu at lefelu eich ardal leol, fel partneriaethau lleol, unrhyw effaith rydych wedi'i chael ar adfywio economaidd, diwylliant lleol a threftadaeth. Ym mha ranbarth o Gymru rydych yn gweithredu?

Uchafswm o 1500 nod

Sut mae eich busnes neu sefydliad yn cyfrannu at dwf economaidd yng Nghymru?

A yw eich busnes neu sefydliad, er enghraifft, yn defnyddio cadwyni cyflenwi lleol neu'n datblygu sgiliau?

Uchafswm o 1500 nod

Dywedwch wrthym sut mae eich busnes neu sefydliad yn cyfrannu at fywyd diwylliannol yng Nghymru.

Sut, er enghraifft, mae eich busnes neu sefydliad, neu yn achos cyflenwyr, y sefydliadau yr ydych yn gweithio gyda nhw, yn cefnogi'r Gymraeg neu'n dod â sefydliadau diwylliannol a chymunedol eraill at ei gilydd?

Uchafswm o 1500 nod

Faint o ymwelwyr mae eich sefydliad fel arfer yn eu denu bob blwyddyn?

Dylai'r ffigur hwn fod yn seiliedig ar nifer eich ymwelwyr yn ystod blwyddyn arferol. Os nad yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i chi, gadewch yr ateb yn wag.

Ydych yn gwybod faint o'r ymwelwyr hyn oedd yn dod o Gymru?

Os nad ydych yn siŵr, gadewch yr ateb yn wag.

Ydych yn gwybod faint o ymwelwyr a oedd yn dod o'r tu allan i Gymru?

Os nad ydych yn siŵr, gadewch yr ateb yn wag.

Dywedwch wrthym am eich hanes o ehangu cyfranogiad, yn enwedig ymhlith grwpiau demograffig sydd, yn hanesyddol, yn ymwneud yn llai â diwylliant a ariennir yn gyhoeddus?

Uchafswm o 1500 nod

Gwybodaeth am y Gronfa

Cadarnhewch pa lefel o gyllid y byddwch yn gwneud cais amdano:

- Hyd at **£5k** Os ydych yn gofyn am lai na £5,000.00, nid oes angen ichi gwblhau'r costau a'r tablau incwm cymwys.
- Hyd at **£75k**
- Hyd at **£250k**

Beth yw cyfanswm yr arian rydych yn gwneud cais amdano gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol?

Dylai'r swm hwn gynnwys TAW na ellir ei hadennill. Dylech wneud cais am yr isafswm sydd ei angen i dalu costau gweithredu hanfodol sydd wedi'u cynnwys, hyd at uchafswm o £250,000.

£

Costau cymwys o fis Rhagfyr 2021 i ddiwedd mis Chwefror 2022

Rhestrwch eich costau gweithredu o fis Rhagfyr tan fis Chwefror (gan gynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill). Dylech gynnwys y costau hynny sy'n hanfodol ar gyfer gweithrediadau craidd eich busnes neu sefydliad yn unig.

Swm £			
Disgrifiad	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror
Costau gweithredu (gan gynnwys cyfleustodau, yswiriant, rhent,			

offer TG ac offer swyddfa, cynnal a chadw hanfodol a phrynu cyfarpar newydd ac atgyweiriadau)			
Costau cyflogau			
Cost ariannol colli contractau			
Cyfreithiol a Phroffesiynol			
Costau hanfodol eraill nad ydynt yn dod o dan y penawdau uchod			

Incwm a dderbyniwyd o fis Rhagfyr 2021 tan ddiwedd Chwefror 2022

Swm £			
Disgrifiad	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror
Grantiau (gan gynnwys cymorth COVID, ffyrlo, ac ati)			
Incwm arall (e.e. ffioedd mynediad, manwerthu, aelodaeth ac ati)			

Manylion banc eich busnes

Sicrhewch fod y manylion banc a roddir yn gywir. Gall manylion banc anghywir arwain at y grant yn peidio â chael ei dalu.

Enw'r banc	
Enw'r cyfrif	
Rhif y cyfrif	

Cod didoli	
------------	--

Cymorth Gwladwriaethol

Disgrifiwch y cymorth a dderbyniwyd o dan fesurau a gymeradwywyd o fewn Fframwaith Dros Dro COVID-19 y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Awdurdodau'r DU a Statws Cwmni mewn Trafferthion rhwng 1 Mawrth 2020 a 1 Chwefror 2022

Corff neu gyrrff a ddarparodd y cymorth

--

Cyfanswm gwerth y cymorth

Er enghraifft: 5000

£

NEU

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi cael y cymorth de minimis a ganlyn yn ystod y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf (sef y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol).

Datganiadau

Ydych chi neu unrhyw un o'ch cydweithwyr wedi cael eich anghymhwysu rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni o dan y Ddeddf Anghymhwysu Cyfarwyddwyr Cwmni (1986), neu wedi bod yn berchennog, partner neu gyfarwyddwr sefydliad sydd neu a oedd yn destun ymchwiliad (a gwblhawyd, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd neu sydd yn yr arfaeth) o dan y Ddeddf Cwmnïau, y Ddeddf Gwasanaethau Ariannol neu'r Ddeddf Banciau?

Ydw/Ydy Nac ydw/Nac ydy

Ydy unrhyw gyfarwyddwr/partner wedi mynd yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant gyda chredydwr neu wedi bod yn berchennog, bartner neu gyfarwyddwr sefydliad a fu'n rhan o weithdrefn ansolfedd ffurfiol megis mynd i ddwylo derbynwyr, cael ei ddiddymu, mynd i ddwylo gweinyddwyr, neu drefniant gyda chredydwr?

Ydy Nac ydy

Ydy unrhyw gyfarwyddwr/partner wedi bod yn berchennog, partner neu gyfarwyddwr sefydliad y gofynnwyd iddo ad-dalu grant o dan unrhyw gynllun gan y Llywodraeth?

Ydy Nac ydy

A yw'r cwmni/unrhyw gyfarwyddwr/partner wedi derbyn Dyfarniad Llys Sirol?

Ydy Nac ydy

Os ydych wedi ateb yn gadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, ni fydd hynny o reidrwydd yn effeithio ar eich hawl i gael cymorth. Fodd bynnag, dylech roi manylion y person(au), y sefydliad(au) a'r amgylchiadau isod.

Uchafswm o 500 nod

Ydy'r cais hwn wedi cael ei gyflwyno gan y sefydliad ac nid yr asiantau sy'n gweithredu ar ei ran.

Ydy Nac ydy

Os nac ydy, rhowch fanylion

Uchafswm o 500 nod

Rwy'n cadarnhau nad oedd fy nghwmni mewn trafferthion ar 31 Rhagfyr 2019 (gweler y canllawiau i ymgeiswyr) ac yn amodol ar gyllid, mae'n sefydliad cynaliadwy sydd â cynlluniau digonol i weithredu yn ystod argyfwng COVID-19 a'r tu hwnt.

Rwy'n deall na fydd Llywodraeth Cymru yn atebol am unrhyw gostau sy'n cael eu talu yn ystod y gwaith o baratoi, cyflwyno neu asesu'r cais hwn.

Rwy'n deall y bydd y wybodaeth sy'n cael ei darparu yma ac mewn unrhyw waith papur atodol yn cael ei rhannu â sefydliadau cyllido cyhoeddus eraill, cynghorwyr technegol allanol (fel y bo'n briodol) a Banc Datblygu Cymru.

Rwy'n datgan y bydd yr ymgeisydd yn sicrhau y bydd yr holl swyddi a ddiogelir yn bodloni'r gofynion a nodir o dan yr Isafswm Cyflog Byw Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol.

Rwy'n deall y bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn cael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian a gwirio pwy ydym ni. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru'n debygol o erlyn achosion o dwyll

neu geisio twyll. Os ydym yn canfod twyll, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod rhai gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth yn y dyfodol.

Rwy'n deall bod deddfwriaeth diogelu data newydd wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar, sef y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (y 'GDPR'). O ganlyniad, mae Hysbysiad Preifatrwydd newydd ar gyfer Grantiau wedi cael ei gyhoeddi i'w gwneud yn haws ichi wybod sut rydym yn defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth o fewn Llywodraeth Cymru, pan fyddwch yn holi neu'n gwneud cais am gyllid. Ni fyddwn yn newid y ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, ond bydd yr hysbysiad newydd yn rhoi manylion ychwanegol ichi, megis:

- Eich hawliau ychwanegol mewn perthynas â'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch
- Y seiliau cyfreithiol ar gyfer y ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth. Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Grantiau yn berthnasol i unrhyw grantiau neu gyllid rydym yn eu darparu ichi.

Sut i gael rhagor o wybodaeth:

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn [Hysbysiad Preifatrwydd – Grantiau Cronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru | Busnes Cymru](#).

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Grantiau yn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â chyfraith a rheoliadau preifatrwydd.

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio gennym ni a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, drwy gysylltu â Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Rwy'n deall y gellir cyhoeddi unrhyw gynnig drwy ddatganiad i'r wasg sy'n rhoi manylion cryno am faint o gymorth a gynigir a'r allbynnau.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen ac yn deall y Datganiad Preifatrwydd ar gyfer Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru.

Rwy'n cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn

- 1. Cynnal unrhyw wiriadau priodol o'r sefydliad yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i asesu'r cais.**
- 2. Gwirio natur y cyllid, sut mae'n cael ei ddefnyddio a'i effeithiau yn y dyfodol.**

Rwy'n cadarnhau y bydd hyfywedd y sefydliad dan fygythiad heb Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru o ganlyniad i bandemig COVID-19.

A yw eich busnes neu sefydliad wedi cael ei orfodi i gau am dorri Rheoliadau COVID? Ydy Nac ydy

Rwy'n cadarnhau nad wyf wedi gwneud cais am unrhyw gyllid adfer arall gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr un cyfnod, h.y. Cronfa Cadernid Economaidd Rhagfyr 2021 – Chwefror 2022, ac nad wyf yn derbyn y grant Ardrethi Annomestig.

Fel y person a enwir yn y cais hwn, rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddir yn y cais hwn yn wir ac yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth, ac y gall darparu unrhyw wybodaeth ffug arwain at weithredu gan Lywodraeth Cymru i adennill y grant.

Enw:

Dyddiad:

Llofnod: